

## Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher 10 Mai 2017

### Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Llŷr Roberts, Yr Athro Emeritws Alun Deri Tomos

Aelodau (Sefydliad): Dr Lisa Lewis, Sioned Roberts, Dr Elin Royles, Sara Whittam, Dr Catrin Haf Williams

Aelodau (Myfyrwyr): -

Aelodau (Colegau Cymru): -

Swyddogion: Dr Haydn Edwards (Cadeirydd); Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Suzanne Lewis (Uwch Swyddog Gweinyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Gwawr Jones, Llinos Roberts, Carys Swain, Daniel Tiplady, Nia Brown, Laura Beth Davies, Lois Pennant Jones, Osian Wyn Morgan, Osian Wyn Owen, Alun Rennolf

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Croeso a sylwadau agoriadol</b>	<p>1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon.</p> <p>1.2 Estynnwyd croeso i Gadeirydd newydd y Coleg, Dr Haydn Edwards.</p> <p>1.3 Nodwyd penodiad Dr Lowri Morgans fel Rheolwr Prosiectau Academaidd.</p> <p>1.4 Estynnwyd cydymdeimlad â Gwerfyl Roberts (Prifysgol Bangor) a'r Athro Sioned Davies (Prifysgol Caerdydd) yn dilyn marwolaeth eu mam yn ddiweddar.</p> <p>1.5 Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwerfyl Roberts am gael ei henwi ar restr anrhydeddau'r Orsedd.</p> <p>1.6 Estynnwyd llongyfarchiadau i Dr Catrin Williams ar gael ei hethol yn Gymrawd y</p>		

	<p>Gymdeithas Ddysgedig.</p> <p>1.7 Nodwyd absenoldeb Nia Brown o'r cyfarfod gan nodi ei bod wedi dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddar yn dilyn absenoldeb salwch ac anfonwyd dymuniadau gorau iddi.</p> <p>1.8 Diolchwyd i Brifysgol Aberystwyth am y croeso ac am letya'r cyfarfod.</p>		
<b>2. Cyflwyniad gan Gangen Aberystwyth</b>	<p>2.1 Croesawyd y Bwrdd Academaidd i Brifysgol Aberystwyth a chafwyd cyflwyniad gan Dr Mari Elin Jones, Cangen Aberystwyth ar fuddsoddiad y Coleg yn y Brifysgol, y ddarpariaeth academaidd, profiad y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a gweledigaeth y sefydliad.</p>		
<b>3. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb</b>	<p>3.1 Nodwyd ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>3.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
<b>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2017</b>	<p>4.1 Nodwyd cywiriad i ddisodli enw Julie Brake gyda Sioned Roberts, Prifysgol Glyndŵr.</p> <p>4.2 Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>		
<b>5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr</b>	<p>5.1 Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Prif Weithredwr.</p> <p>5.2 Ategwyd y croeso i Gadeirydd newydd y Coleg, Dr Haydn Edwards, gan nodi ei fod eisoes wedi mynychu nifer o gyfarfodydd. Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda Dr Edwards.</p> <p><b>Cyllido</b></p> <p>5.3 Adroddwyd bod y newid yn nhrefniadau cyllido'r Coleg bellach wedi ei drosglwyddo o'r Cyngor Cyllido (CCAUC) i'r Llywodraeth.</p> <p>5.4 Nodwyd bod y trosglwyddiad wedi digwydd yn hwylus a diolchwyd i gydweithwyr am yr holl waith a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf.</p> <p>5.5 Adroddwyd bod Cyllideb 2017/18 a chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a Llywodraeth Cymru.</p> <p>5.6 Wrth symud tuag at gyllido grantiau pynciol, nodwyd bod cyfanswm o oddeutu £0.5m wedi ei adnabod ar gyfer dyraniadau a bod hyn wedi ei gadarnhau gan y Bwrdd ym mis Mawrth. Cadarnhawyd bod llythyron ynghylch y grantiau pynciol</p>		

	<p>wedi eu hanfon at y prifysgolion yr wythnos hon.</p> <p><b>Cynllun Academaidd</b></p> <p>5.7 Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar draws y chwe maes o ran adolygu cynlluniau pwnc a bod nifer o ddyraniadau prosiect wedi eu cadarnhau.</p> <p><b>Canghennau'r Coleg</b></p> <p>5.8 Ar 22 Mawrth 2017 cynhaliwyd trafodaeth ar drefniadau Canghennau'r Coleg yng nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Nodwyd bod y canghennau yn elfen bwysig iawn yn y ffordd mae'r Coleg yn gweithredu fel sefydliad, gan ffurfio'r cyswllt allweddol rhwng myfyrwyr a darlithwyr yn y prifysgolion a'r Coleg yn genedlaethol.</p> <p>5.9 Cafwyd trafodaeth ar y canghennau a disgwyliadau'r Coleg o'r canghennau yn sgil y grantiau sy'n cael eu dyrannu'n flynyddol iddynt.</p> <p>5.10 Nodwyd bod yna adolygiad o'r canghennau yn cael ei gwblhau sy'n cynnwys cwrdd â phob un o ganghennau'r Coleg i drafod themâu penodol.</p> <p>5.11 Adroddwyd bod tri o'r cyfarfodydd adolygu canghennau wedi eu cwblhau ac y byddai'r gweddill yn digwydd dros yr wythnosau nesaf gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Mehefin.</p> <p><b>Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol</b></p> <p>5.12 Nodwyd bod yr amserlen wedi ei hymestyn i'r hyn a nodwyd yn wreiddiol.</p> <p>5.13 Adroddwyd bod Dr Haydn Edwards, Dr Ioan Matthews a Dr Dafydd Trystan wedi cwrdd â'r Grŵp yn ddiweddar a bod disgwyl i adroddiad terfynol y grŵp ymddangos yn y misoedd nesaf.</p>		
<p><b>6. Eitem ychwanegol: Dr Haydn Edwards, Cadeirydd y Coleg (sylwadau)</b></p>	<p>6.1 Diolchodd Dr Haydn Edwards am y croeso.</p> <p>6.2 Nodwyd mai hwn oedd y cyfarfod Bwrdd Academaidd cyntaf iddo fynychu ac wrth baratoi roedd yn amlwg bod y Bwrdd Academaidd yn ganolog i waith y Coleg ac i ddatblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg.</p> <p>6.3 Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Bwrdd Academaidd ac unigolion am y llwyddiant</p>		

	<p>dros y chwe blynedd.</p> <p>6.4 Estynnwyd diolch i Dr Hefin Jones gan hefyd nodi ei fod yn falch bod Dr Hefin Jones yn parhau fel Deon y Coleg.</p>		
<p><b>7. Cynllunio academiaidd</b></p> <p>• <b>Cynllunio pynciol</b></p>	<p>7.1 Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Dr Dafydd Trystan yn nodi bod gwaith y Coleg yn symud o drafod y fframwaith cenedlaethol i drafod yr elfennau gweithredu.</p> <p>7.2 Nodwyd mai'r dasg nesaf fydd ail-lunio dros ugain o gynlluniau pwnc dros y flwyddyn nesaf. Cytunwyd ar chwe maes i ddechrau'r dasg, sef Busnes, Chwaraeon, Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Diwydiannau Creadigol a'r Gyfraith.</p> <p>7.3 Adroddwyd bod pob un o'r prifysgolion wedi derbyn cais i gyflwyno gwybodaeth ar draws y wahanol feysydd. Pwysleisiwyd bod y data yn greiddiol i'r gwaith cynllunio. Dyddiad cau derbyn y wybodaeth yn ôl yw Dydd Gwener 12 Mai 2017.</p> <p>7.4 Adroddwyd bod cyfarfodydd paneli wyneb yn wyneb wedi'u trefnu cyn canol Gorffennaf i drafod cynlluniau pwnc drafft. Rhoddir ystyriaeth i'r hyn sydd angen ei flaenoriaethu yn y pynciau yn unigol gan ystyried y saith egwyddor sydd wedi'u henwi yn y Cynllun Academaidd.</p> <p>7.5 Nodwyd mai'r bwriad ar ôl cwblhau'r set gyntaf o gynlluniau pwnc yw casglu'r wybodaeth ar gyfer pob un o'r pynciau eraill erbyn diwedd tymor yr haf.</p> <p>7.6 Y bwriad yw i'r cynlluniau pwnc gyfleu darlun ar gyfer paratoi cynlluniau buddsoddi'r cyfnod nesaf wrth i'r Coleg symud ymlaen o sefydlu darpariaeth, a gofyn cwestiynau mwy dwys am brofiad y myfyrwyr a'r cwricwlwm gan ystyried saith egwyddor yn y Cynllun Academaidd.</p> <p>7.7 Nododd y Prif Weithredwr fod y gwaith yn heriol ac y byddai ymgynghori gyda phrifysgolion cyn cyrraedd y Bwrdd Academaidd. Nododd y byddai trafodaethau ychydig yn sensitif mewn rhai meysydd a chadarnhawyd y byddai penderfyniadau yn cael eu gyrru gan y Cynllun Academaidd ac nid unrhyw beth arall.</p> <p>7.8 Nododd y Prif Weithredwr fod yna fwriad i newid y drefn monitro yn sylfaenol drwy gyfarfodydd monitro wyneb yn wyneb yn bennaf er y bydd angen proses ffurfiol er mwyn sicrhau atebolrwydd addas dros y cyllid cyhoeddus sylweddol a ddyrennir gan y Coleg.</p>		

	<p>7.9 Nododd Dr Dylan Phillips mai un canlyniad posibl i'r cynllun staffio oedd bod tuedd i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei weld fel mater i ddarlithwyr a noddir drwy'r cynllun staffio yn unig. Nodwyd y byddai'r drefn newydd yn galluogi'r Coleg i gwrdd â phawb sy'n ymwneud a'r pwnc unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i drafod cynnydd a datblygiadau i'r dyfodol.</p> <p>7.10 Cafwyd trafodaeth sylweddol am yr amryw elfennau a diolchwyd i Dr Dafydd Trystan a Dr Ioan Matthews am ateb nifer o gwestiynau.</p>		
<b>8. Ysgoloriaethau ymchwil</b>	<p>8.1 Derbyniwyd papur a chyflwyniad llafar gan Dr Dylan Phillips.</p> <p>8.2 Trafodwyd y cwestiynau a oedd wedi'u nodi yn y papur. Nodwyd bod y cwestiynau wedi'u rhannu'n ddwy thema, sef (i) nodau ac amcanion yr ysgoloriaethau; a (ii) materion gweithredol.</p> <p>8.3 Nodwyd bod cwestiynau wedi codi trwy'r Bwrdd Academaidd a gyda chydweithwyr ac yn y cyfarfod panel dyfarnu diwethaf.</p> <p>8.4 Cafwyd trafodaeth agored a chyfle i godi fwy o gwestiynau.</p> <p>8.5 Adroddodd Dr Dylan Phillips bod deiliaid yr ysgoloriaethau ymchwil yn y gorffennol wedi cael blwyddyn ychwanegol i gyfrannu at ddysgu ar ôl cwblhau'r ddoethuriaeth. Erbyn hyn, fodd bynnag, nid yw'r flwyddyn ychwanegol yn ran o'r cynllun sydd yn cefnogi cyfnod o ymchwil ddoethuriaethol yn unig.</p> <p>8.6 Nododd y Prif Weithredwr bod modd edrych ar y ffordd y mae'r ysgoloriaethau yn cael eu cyllido ac y gellid amrywio'r model mewn rhai blynyddoedd penodol petai'r galw.</p> <p>8.7 Nodwyd y byddai Dr Dylan Phillips yn darparu rhestr o'r ysgoloriaethau ymchwil dros y blynyddoedd a gan hefyd nodi'r pynciau.</p> <p>8.8 Cytunwyd, mewn egwyddor, i argymhell parhau gyda'r ysgoloriaethau ymchwil yn eu ffurf bresennol.</p>	Dr Dylan Phillips i ddarparu rhestr o'r ysgoloriaethau ymchwil gan nodi'r pynciau	
<b>9. Prosiectau strategol</b>	<p>9.1 Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Dr Dylan Phillips.</p> <p>9.2 Adroddwyd bod y Coleg wedi gwahodd ceisiadau ar gyfer nifer o brosiectau oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau ac e-lyfrau, cyn Pasg. Cadarnhawyd bod nifer o geisiadau wedi'u derbyn a bod nifer o grantiau wedi eu cadarnhau yn</p>		

	amodol ar gytuno cynlluniau prosiect terfynol.		
<b>10. Pwyllgor Cydweithio Academaidd</b>  • <b>Nodi cofnodion drafft y Pwyllgor Cydweithio Academaidd 25 Ionawr 2017</b>	10.1 Nodwyd bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd ar 11 Mai 2017 i drafod ceisiadau grantiau ar gyfer modiwlau cydweithredol ar gyfer 2017/18. 10.2 Adroddwyd bod arbenigwr allanol (Tony Platt) wedi ei benodi yn ymgynghorydd i edrych ar drefniadau'r modiwlau cydweithredol i wirio os ydy'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn addas ac yn ddigonol. 10.3 Adroddwyd mai safbwynt y Coleg yw ei fod yn hwyluso yn y manau hynny lle mae cydweithio yn ddarparu'r ateb gorau. Nodwyd bod yna le i ddarpariaeth gydweithredol, a bod hynny yn gallu cyfoethogi'r profiad Cymraeg pan fo'n addas i amgylchiadau'r pwnc. Pan fo'r ddarpariaeth yn derbyn cyllid gan y Coleg mae'n rhaid i'r ddarpariaeth i fod yn ffurfiol. Gofynnwyd i Tony Platt ddarparu cyngor ar y model presennol ac i argymhell newidiadau pe bai angen. Adroddir i'r Bwrdd ar hyn maes o law.		
<b>11. Strategaeth Ymchwil</b>  • <b>Nodi cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi 28 Chwefror 2017</b>	11.1 Nodwyd cywiriad gan Dr Dylan Foster Evans ar ail dudalen cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi (28 Chwefror 2017) yn y cyfeiriad at Gynllun Gweithredu ar gyfer Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi'r Coleg sef – <i>“Atodiad 1: nodwyd pryder ynghylch y ffaith nad oes rhifynnau o Dwned na Llen Cymru wedi ymddangos ers peth amser”</i> i nodi bod rhai rhifynnau o Llên Cymru wedi ymddangos yn ddiweddar. 11.2 Cafwyd trafodaeth am gyhoeddi cyfrwng Cymraeg a rôl Gwasg Prifysgol Cymru. 11.3 Nodwyd bod Gwerddon yn dathlu 10 mlynedd eleni ac y bydd erthyglau penodol i ddathlu'r llwyddiant yn rhan o lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac fe apeliwyd i bawb o bob disgyblaeth i ddarparu erthyglau.		
<b>12. Materion yn codi o'r cofnodion na ddeliwyd â hwy yn barod</b>	<b>Ehangu Mynediad (Delyth Murphy)</b> 12.1 Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal ar ôl cyfarfod diwethaf y Bwrdd Academaidd ac fe benderfynwyd canolbwyntio ar feysydd gwaith. 12.2 Cafwyd diweddariad gan Delyth Murphy a nodwyd ei bod hi'n datblygu strategaeth Gofalwyr ifanc Cymraeg ei hiaith i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd.  <b>QAA: Grŵp adolygu'r canllawiau ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy</b>	Delyth Murphy i baratoi papur ar ddatblygiadau maes ehangu mynediad	Erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd.

	<p><b>gyfrwng y Gymraeg</b></p> <p>12.3 Adroddwyd bod y Deon a'r Prif Weithredwr wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â'r Grŵp ond nad oes yna gyfarfod wedi ei drefnu hyd yma.</p> <p>12.4 Gofynnwyd i Dr Dafydd Trystan i gylchredeg gwybodaeth gyswllt ar gyfer y "BIS".</p>		
<p><b>13. Unrhyw fater arall</b></p>	<p><b>Ymweliadau Deon y Coleg</b></p> <p>13.1 Nodwyd bod Dr Hefin Jones wedi ymweld â Choleg Sir Gâr, a Phrifysgolion Met Caerdydd, PCYDDS (Abertawe), Aberystwyth a Bangor ac y bydd yn ymweld â Phrifysgolion PCYDDS (Caerfyrddin), Casnewydd ac Abertawe cyn diwedd y flwyddyn academaidd.</p> <p><b>Cynrychiolaeth myfyrwyr: Dirprwyo</b></p> <p>13.2 Derbyniwyd y cynnig i gynrychiolwyr y myfyrwyr i benodi dirprwyon yn yr un modd a'r canghennau.</p> <p><b>Seren</b></p> <p>13.3 Nodwyd bod y Coleg wedi bod yn rhan o gynhadledd rhwydwaith diweddar Seren gan ddarparu cyflwyniadau i'r disgyblion a'r athrawon i sicrhau bod llais cyfrwng Cymraeg yn cael ei glywed. Unwaith eto, nododd nifer o'r aelodau eu pryderon ynghylch y prosiect hwn a noddir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>13.4 Nodwyd bod Ysgol Feddygaeth Caerdydd wedi cysylltu â phob rhwydwaith Seren er mwyn cael presenoldeb ym mhob un o'r digwyddiadau.</p> <p><b>Eisteddfod Genedlaethol</b></p> <p>13.5 Nodwyd bod yr amserlen lawn wedi'i phennu ar gyfer yr Eisteddfod eleni.</p> <p><b>Gwobr Gwyn Thomas</b></p> <p>13.6 Nodwyd bod y panel ar gyfer Gwobr Gwyn Thomas yn cyfarfod dydd Llun i ddyfarnu traethawd gorau cyfrwng Cymraeg.</p> <p><b>Gwobr Merêd</b></p> <p>13.7 Nodwyd y dylid ystyried gadael i fyfyrwyr wybod eu bod wedi eu henwebu ar</p>		

	<p>gyfer y wobr hon er mwyn paratoi bywgraffiad mewn pryd.</p> <p><b>Yr Athro Deri Thomas</b></p> <p>13.8 Llongyfarchwyd yr Athro Emeritws Deri Thomas am ennill y Fedal Gwyddoniaeth. Nodwyd bod y fedal yn cydnabod yr holl waith a wnaeth Deri dros y blynyddoedd gan gynnwys y blynyddoedd cyn sefydlu'r Coleg.</p> <p>13.9 Nodwyd bod tymor yr Athro Emeritws Deri Thomas yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Diolchwyd i Deri am ei holl waith a'i gyfraniad i'r maes ac i'r Bwrdd Academaidd.</p>		
<b>14. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</b>	<p>Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 18 Hydref 2017, Prifysgol Bangor</li> <li>• 7 Chwefror 2018, Prifysgol Abertawe</li> <li>• 2 Mai 2018, Prifysgol Metropolitan Caerdydd</li> </ul>		